Llamu drwy'r creigiau i'w gwarau geirwon
Yw uchel nodded y geifr caledion,
O awch i gludo uwch y gwaelodion
Y borfa oreu, a'u barfau hirion
I'w nwyfiant fel henafion—sy'n parhau
O gynulliadau'r clogwyni llwydion.

Dyma'r Unigedd sy'n gweddu—i frwd-
Frydedd yr awen lu,
Ac onid hawdd yw canu—odlau pur
Yn nghreigiau natur sy'n nghrog o'n neutu?

Wedi i'r hwyr wneyd ei ran
I arafu pedryfan—
A llaw'r gwawl i roi lliw'r gwin
Yn lliw ar y gorllewin—
A haul nef yn cilio'n ol
I ail-gànu'n blygeiniol—
Daw'r nos a phelydron hedd
I enwogi Unigedd.

Ymwthio wnaeth gwyll methiant—i'n daear
A duodd gan siomiant,
A gyrodd cwsg ei warant—gaeth allan
Er dal anian ar ei adloniant.

Yn y fan dyna finau
O fewn hwyl i hyf fwynhau



Unigedd, ddaw yn agos
A Duw a'r nef drwy y nos.
Eneinir f'egwan anian
Yn wrol â dwyfol dân
Er edrych draw i adran
Ser-fydoedd, a'u cylchoedd càn,
Mewn braint i emynu bri
Goleuadau gweledig.

Y dwyster mwyaf dystaw—o fy nghylch,
Yn fy nghau i deim'aw,
Y ser am fy nghysuraw—
Dan awydd dweyd yn ddidaw
Am fawredd rhyfedd yr Iôr—
A da rasau ei drysor.

I deneu glust, heb dan glo
Gwir hoender ydyw gwrando
Mud-dreiddiol ymadroddion—traddodwyr
Trwyddedol nef-ffyddlon;
Araf ddal ar feddylion—wybr ddiwg
A ddaw i'r golwg a gweddi'r galon.

Cu fendith gwel'd cyfundeb—ô fydoedd
Hanfodol eu purdeb:
A thywynant ddoethineb
I ni, byth yn ofni neb
Anffyddion, a ffieiddiant
Duw ar ei sedd—cryfdwr sant.